



Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar dueddiadau lladd a chynhyrchu ar gyfer 2025 yn ei gyfanrwydd yn dilyn y ffigurau trwybwn a ryddhawyd yn ddiweddar gan Defra.

Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi & Mewnwelediad Busnes



GWARTHEG

Syrthiodd cyfanswm trwybwn gwartheg yn lladd-dai y DU i **2.7 miliwn** o bennau yn 2025, i lawr 5% (neu 130,200 pen) flwyddyn ar ôl blwyddyn, a 3% yn is na chyfartaledd 2020-24 o 2.8 miliwn pen. Mae hyn yn nodi'r trwybwn blyneddol isaf ers 2015, ac yn cadarnhau tynhau parhaus mewn argaeledd gwartheg.

Cofnododd pob categori o wartheg ostyngiad flwyddyn ar flwyddyn yn y lefelau lladd. Gostyngodd trwybwn gwartheg dethol i tua 2.0 miliwn o bennau, cwmp o 4% flwyddyn ar flwyddyn, wedi'i ysgogi gan ostyngiadau ar draws pob prifategori. Cofnododd bustych y gostyngiad mwyaf flwyddyn ar flwyddyn, gyda niferoedd lladd yn gostwng i ychydig dan 1.0 miliwn pen, i lawr bron i 60,000 pen flwyddyn ar flwyddyn, gan gyrraedd ei lefel isaf ers 2014, gan adlewyrchu nifer llai o wartheg a newidiadau strwythurol parhaus mewn systemau pesgi. Gostyngodd trwybwn heffrod tua 3% i 828,000 pen, ond mae niferoedd yn parhau i fod yn uchel yn hanesyddol o gymharu â lefelau hanesyddol tymor hwy, sy'n

awgrymu bod heffrod yn parhau i chwarae rôl ddeuol mewn penderfyniadau cyflenwi cig eidion a phenderfyniadau buchesi cadw. Ochr yn ochr â hyn, gostyngodd trwybwn gwartheg llawn dwf o 4% ar y flwyddyn i oddeutu 614,000 pen, y lefel isaf ers 2014. Gostyngodd lladd buchod flwyddyn ar flwyddyn, gan awgrymu bod llai o fenywod bridio yn cael eu tynnu o'r fuches, a allai o bosibl adlewyrchu gofal cynhyrchwyr mewn ymateb i gyflenwadau gwartheg tynn, costau anifeiliaid cadw, ac ansicrwydd tymor hwy.

Mae niferoedd lladd llai wedi cyfrannu at gynhyrchiad cig eidion domestig is, gyda niferoedd yn cyrraedd **893,800 tunnell**, i lawr 4% flwyddyn ar flwyddyn, a 3% yn is na'r cyfartaledd pum mlynedd. Mae cyfyngiadau cyflenwi parhaus yn debygol o barhau i gefnogi prisiau gwartheg cadarn, tra gall niferoedd cynhyrchu domestig cyfyngedig ddrychafu gofynion mewnforio, gan gynyddu amlygiad i amodau'r farchnad cig eidion byd-eang a symudiadau arian cyfred. Wrth edrych at 2026; bydd y cyflenwad posibl o wartheg yn y DU yn debygol o aros yn dynn, gan y bydd ailadeiladu buchesi yn dibynnu ar hyder cynhyrchwyr, proffidioldeb, ac eglurder polisi.

DEFAID

Gostyngodd cyfanswm y defaid ac oen a laddwyd yn y DU i tua **12.5 miliwn pen** yn 2025. Mae hyn yn cynrychioli cwmp o tua 2% o'i gymharu â 2024, ac yn gosod trwybwn tua 9% yn is na chyfartaledd 2020-24, gan atgyfnerthu'r crebachu tymor hwy yn niferoedd defaid y DU.

Roedd trwybwn cig oen yn cyfrif am y mwyafrif (tua 90%) o ladd ar tua 11.2 miliwn pen - gostyngiad o 2% (neu 188,100 pen) ar y flwyddyn. Mae hyn yn ymestyn y dirywiad graddol a welwyd ers yr uchafbwynt ar ôl y pandemig ac yn awgrymu bod niferoedd is y mamogiaid bridio yn dylanwadu fwyfwy ar argaeledd ŵyn wedi pesgi. Yn nodedig, mae lefelau trwybwn cig oen presennol yn debyg i'r rhai a gofnodwyd yn ystod blwyddyn clwy'r traed a'r genau yn 2001, gan dynnu sylw at raddau'r cyflenwad yn tynhau, er eu bod yn cael eu sbarduno gan newid strwythurol yn hytrach nag

afonyddwch sy'n gysylltiedig â chlefyd. Bydd y cnwd cig oen is yn debygol o effeithio ar faint y praid bridio yn y dyfodol. Gostyngodd trwybwn defaid llawn dwf tua 8% flwyddyn ar flwyddyn i tua 1.3 miliwn pen, y lefel isaf ers dechrau'r 1980au. Er gwaethaf niferoedd lladd is, roedd cyfanswm cynhyrchiant cig defaid yn 2025 yn **265,700 tunnell**, dim ond 0.2% yn is nag yn 2024, gan adlewyrchu pwysau carcass cyfartalog uwch i raddau helaeth sy'n gwrthbwysu y dirywiad mewn trwybwn.

Wrth edrych ar y flwyddyn cnwd cig oen (Mai '25 ac Ebrill '26); y trwybwn ŵyn rhwng mis Mai a mis Rhagfyr oedd 7.5 miliwn y pen - 3% yn is na lefelau 2024. Cadarnhawyd gostyngiad yn y ddiadell fridio a niferoedd is ŵyn gan ddata arolwg Defra Mehefin 2025, sy'n dangos bod maint y cnwd cig oen ar lefel hanesyddol isel, felly yn awgrymu y bydd cyflenwad yn debygol o aros yn gyfyngedig wrth symud ymlaen.

MOCH

Prosesodd lladd-dai y DU **10.6 miliwn** o foch yn 2025, cynnydd o 1% flwyddyn ar flwyddyn ond roedd 3% yn is na chyfartaledd 2020-24. Roedd trwybwn moch heb fagu yn 10.4 miliwn, tra bod 197,500 o hychod a baedd yn cael eu prosesu. Cyfanswm cynhyrchiant cig moch oedd **975,200 tunnell**, i fyny 2% ers 2024 ond 1% yn is na'r cyfartaledd pum mlynedd o 987,800 tunnell.

DATA TRWYBWN 2025 AR GYFER CYMRU:

- > Gwartheg a lloi = 176,000 pen (-7% ar y flwyddyn)
- > Defaid ac ŵyn = 2.0m pen (+3% ar y flwyddyn)
- > Moch = 20,700 pen (-4% ar y flwyddyn)

Ffynhonnell: Defra

Rhaid nodi bod y ffigurau trwybwn misol a ddarperir gan Defra yn rhai dros dro, a gellir eu diwygio'n ddiweddarach.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Mae cyflenwadau gwartheg a defaid sy'n tynhau yn debygol o barhau i gefnogi prisiau cadarn i mewn i 2026. Fodd bynnag, gall llai o argaeledd domestig gynyddu dibyniaeth ar fewnforion, gan amlygu'r gadwyn gyflenwi i natur anwadal y farchnad fyd-eang ac arian cyfred. Bydd adferiad tymor hwy yn dibynnu ar hyder cynhyrchwyr, proffidioldeb ac eglurder polisi.

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 25 Ionawr

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **641.4c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- 55.5c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn:

- Heffrod: 636.7c/kg (- 2.5c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 622.8c/kg (- 3.6c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 505.0c/kg (+ 5.7c ar yr wythnos).

Trwybwn – Rhagfyr 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 216,000 pen – i fyny 1% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 156,700 pen - i lawr 1% ar y flwyddyn.
 - bustych -0.4%, heffrod -2%, a theirw ifanc +11%
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 348.7kg (+9kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 54,200 pen - i fyny 3% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 25 Ionawr

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd **688.4c/kg**. Roedd hyn:

- 25.2c ar yr wythnos flaenorol
- 42.8c o'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt,
- 81.8c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 606.6c/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 25,900 pen. Roedd hyn:

- 12% ar yr wythnos flaenorol
- 24% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach

*Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.

Trwybwn – Rhagfyr 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 974,500 pen – i lawr 14% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 886,300 pen – i lawr 13% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 20.4kg (-0.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid & hyrddod difa = 88,200 pen – i lawr 15% ar y flwyddyn.

MOCH


Prisiau – wythnos yn dod i ben 25 Ionawr

Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **191.4c/kg**. Roedd hyn:

- 0.8c ar yr wythnos flaenorol,
- 12.8c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 32.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 171.8c/kg).


Trwybwn – Rhagfyr 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 888,300 pen – i fyny 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 872,300 pen – i fyny 2% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 91.7kg (+3.2kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch & baedd = 15,900 pen – cynnydd o 23% ar y flwyddyn.




**Cynhyrchiant Cig
Eidion a Chig Llo y DU
Rhagfyr '25**

71,100 tonnelli
+2% b-a-f



**Cynhyrchiant cig
defaid yn y DU
Rhagfyr '25**

25,200 tonnelli
+0.4% b-a-f



**Cynhyrchiant
porc y DU
Rhagfyr '25**

82,400 tonnelli
+7% b-a-f

